

Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Tachwedd 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Tachwedd 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



John Griffiths AC
Llafur Cymru



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
Cyflwyniad	7
Dull gweithredu a chylch gorchwyl	7
1. Cyfeiriad strategol ac arweiniad	8
Pwy sy'n gyfrifol am reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig?	8
Dyletswyddau gorfodadwy	9
Y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig	10
Fframwaith rheoli a chynllun gweithredu'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig	11
Ein barn ni	12
2. Staffio ac adnoddau	15
Dull gweithredu ar sail ardal	16
Adnoddau staffio Llywodraeth Cymru	18
Cyfoeth Naturiol Cymru	19
Ein barn ni	19
3. Ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid	21
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	21
Ymgysylltu â'r cyhoedd	21
Ein barn ni	22
4. Cyflwr Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru.....	24
Gorfodi a gweithredu mesurau rheoli	24
Monitro bioamrywiaeth forol	25
Monitro ac adrodd ar gyflwr safleoedd Ardaloedd Morol Gwarchodedig	26
Strategaethau tystiolaeth forol	28
Ein barn ni	29
5. Cwblhau rhwydwaith ecolegol gydlynol	31
Dynodi Parth Cadwraeth Morol	31
Ein barn ni	32

6. Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 34

 Cyllid 36

 Ein barn ni 38

Atodiad A: Ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad 39

Atodiad B: Tystiolaeth lafar 40

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar frys. Dylai wneud hynny erbyn yr haf 2020. Dylai'r strategaeth ganolbwyntio ar yr angen i ddefnyddio dulliau lleol a dulliau ar lefel rhwydwaith i gyflawni amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol lle y bo'n briodol. Dylai'r fframwaith a'r cynllun gweithredu fod yn rhan ategol o'r strategaeth. I gyd-fynd â'r strategaeth, dylid darparu esboniad o sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu'r gwaith o Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn barhaus. Dylai'r strategaeth fod yn destun ymgynghoriad llawn a dylid ei hadnewyddu o bryd i'w gilydd. Tudalen 13

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig sut i gael mewnbwn gan sylfaen ehangach o randdeiliaid a mwy o awdurdodau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Gallai hyn gynnwys ehangu'r grŵp i gynnwys aelodau ychwanegol neu greu is-grwpiau perthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad y trafodaethau hyn. Tudalen 14

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cyflwyno dyletswyddau i Weinidogion Cymru, yn debyg i'r dyletswyddau ar Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a dylent adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn..... Tudalen 14

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ar gyfer dull gweithredu ar sail ardal a fyddai'n gweld awdurdodau rheoli yn rhoi swm o arian yn y pot sy'n gymesur â maint yr ardal warchodedig y mae ganddynt gyfrifoldeb amdani. Dylai'r cyllid hwn fod yn ychwanegol at y cyllid ar gyfer y camau yn y Cynllun Gweithredu, yn hytrach nag yn lle'r cyllid hwnnw.Tudalen 20

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, mewn trafodaeth â phum Grŵp Awdurdod Perthnasol Cymru, sut y bydd Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn datblygu dull mwy integredig o weithio gyda'r grwpiau hyn.....Tudalen 20

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r nifer benodol o staff yng nghanen cadwraeth forol Is-adran y Môr a Physgodfeydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.....Tudalen 20

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth dwristiaeth sydd ar ddod yn rhoi sylw i fioamrywiaeth a chadwraeth forol. Tudalen 22

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector twristiaeth bywyd gwyllt morol i'w gwahodd i Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol a dylai roi diweddariad ar hynt sefydlu is-grŵp Bioamrywiaeth o Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.....Tudalen 23

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw mesurau rheoli wedi eu gweithredu eto o ganlyniad i asesiadau Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru ar gyfer gweithgareddau risg uchel, a gyhoeddwyd yn 2017. Dylai gyflwyno ymgynghoriad ar opsiynau rheoli ar gyfer y gweithgareddau hynny ar frys. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar amserlen gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cwblhau'r asesiadau sy'n weddill, ond ni ddylai hynny fod yn hwyrach na mis Ionawr 2021 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru asesu lefel yr adnoddau y bydd eu hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau'r gwaith hwn.....Tudalen 29

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor ddymunol fyddai gwneud y gwaith o gynhyrchu adroddiadau cyflwr nodweddion ar lefel safle a chasglu gwybodaeth fonitro berthnasol yn ofyniad statudol.....Tudalen 30

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod bylchau tystiolaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael sylw drwy roi'r Cynlluniau Tystiolaeth Morol a'r Cynlluniau Tystiolaeth Pysgodfeydd ar waith.....Tudalen 30

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar hynt gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol posibl. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn hwyrach na mis Chwefror 2020 fan bellaf.....Tudalen 33

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ystyried, fel rhan o'i waith, yr angen am ddynodiadau Parthau Cadwraeth Morol gwarchodedig iawn. Dylid ymgynghori'n helaeth â phartïon â buddiant, fel pysgotwyr, er mwyn llywio'r ystyriaeth hono.....Tudalen 33

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddatblygu cynllun ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar gyfer rhywogaethau symudol.....Tudalen 33

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu gomisiynu asesiad o'r effaith ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn sgil ymadael â'r UE, gan gynnwys y posibilrwydd o golli mynediad at ymchwil, sefydliadau a chyllid yr UE. Wrth wneud hynny, dylai egluro sut y bydd yn lliniaru unrhyw effaith o'r fath.
.....Tudalen 38

Cyflwyniad

Dull gweithredu a chylch gorchwyl

- 1.** Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, “Y Llanw’n Troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig”. Roedd yr adroddiad yn cynnwys sawl argymhelliad a oedd yn ceisio mynd i’r afael â materion fel diffyg adnoddau, arweinyddiaeth a gorfodi.
- 2.** Roedd y Pwyllgor am asesu pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi’i wneud ers iddi gyhoeddi ei hadroddiad. Ni chlywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gweinidog fel rhan o’r ymchwiliad hwn ond mae’n bwriadu gwneud hynny maes o law, yn sgil canfyddiadau’r Pwyllgor.
- 3.** Mae rhestr o’r cyfranogwyr a ddarparodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i gefnogi gwaith y Pwyllgor yn Atodiad A.

1. Cyfeiriad strategol ac arweiniad

5. Ardal Forol Warchodedig yw'r term a ddefnyddir ar gyfer pob math o safle cadwraeth natur sy'n cael ei warchod yn yr amgylchedd morol. Mae'r rhain yn cael eu diffinio'n ddaearyddol ac yn cael eu cydnabod yn ffurfiol drwy ddulliau cyfreithiol neu ddulliau effeithiol eraill, megis trefniadau gwirfoddol. Gellir dynodi ardal yn Ardal Forol Warchodedig am nifer o resymau, gan gynnwys cadwraeth forol a rheoli pysgodfeydd. Caniateir i ystod o weithgareddau gael eu cynnal yn y rhan fwyaf o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn y DU, gan benderfynu sut i reoli'r gweithgareddau yn unol â nodweddion ac amcanion y safle.

6. Mae amgylchedd morol Cymru yn cyfrif am dros hanner arwynebedd Cymru ac mae'n gartref i rai o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau mwyaf amrywiol yn Ewrop o safbwynt biolegol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae cyfanswm o 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru sy'n gorchuddio 69 y cant o ddyfroedd glannau Cymru (o'r marc penllanw cymedrig hyd at derfyn 12 milltir fôr y moroedd tiriogaethol) a 50 y cant o holl ddyfroedd Cymru.

7. Yn ei adroddiad cychwynnol, "Y Llanw'n Troi?", argymhellodd y Pwyllgor:

"Er mwyn i Gymru wireddu manteision ei MPAs, rhaid rheoli'r safleoedd yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad yn hyn o beth drwy ddatblygu, yn ddi-oed, strategaeth MPAs, a sicrhau bod pob awdurdod rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn ymwneud yn frwd â rheoli MPAs ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau."

8. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Pwy sy'n gyfrifol am reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig?

9. Mae'r cyfrifoldeb am adnabod, dynodi a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn fater cymhleth. Mae fframwaith rheoli rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 yn nodi:

"Er bod Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru'n cael ei reoli'n effeithiol, mae nifer o sefydliadau'n rhannu'r cyfrifoldeb dros eu rheoli. Yn y Fframwaith hwn, cyfeirir atynt fel awdurdodau rheoli. Sefydliadau sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag ardal forol warchodedig o unrhyw fath, neu sy'n berchen ar ddarnau mawr o'r arfordir neu wely'r môr, yw awdurdodau rheoli."

10. Mae rhai awdurdodau rheoli wedi sefydlu Grwpiau Awdurdod Perthnasol (grwpiau RAG). Trefniadau gweithio gwirfoddol yw'r rhain a sefydlwyd gan rai awdurdodau rheoli i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau dros reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae swyddogion dynodedig (Swyddogion Safle Morol Ewropeaidd) yn gweithio'n agos gyda grwpiau RAG wrth reoli rhai o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (ardaloedd cadwraeth arbennig) mwyaf Cymru.

11. Oherwydd cylch gwaith a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru fel cynghorydd cadwraeth natur statudol i Lywodraeth Cymru, mae'n chwarae rhan sylweddol wrth reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'n gyfrifol am dystiolaeth a chynghor ar gyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig, asesu gwaith rheoli effeithiol a chynghori ar y fath waith, a chyflawni amrywiaeth o swyddogaethau cynghori a rheoleiddio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rheolwr safle ar gyfer rhai Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys Parth Cadwraeth Morol Skomer.

Dyletswyddau gorfodadwy

12. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, pwysleisiodd sawl rhanddeiliad fod diffyg dyletswyddau "gorfodadwy" ar Lywodraeth Cymru yn *Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* wedi rhwystro cynnydd o ran rheoli morol ac arweiniad. Dywedodd y Blue Marine Foundation:

"Since taking over direct responsibility for the Welsh marine environment, the Welsh Government has failed to integrate fisheries management and marine conservation as effectively as has been achieved by relevant English authorities, particularly Inshore Fisheries and Conservation Authorities (IFCAs)."

13. Eglurodd:

"In relation to Wales, [the Marine and Coastal Access Act, 2009] MCAA is silent as to duties equivalent to those imposed on [Inshore Fisheries and Conservation Authorities] IFCAs: in other words, in Wales, there is no statutory requirement to manage the exploitation of the fishery resource, or to further the conservation objectives of MCZs, or to co-operate with adjoining English IFCAs."

14. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Blue Marine Foundation hefyd yn tynnu sylw at y gwahaniaeth mewn dyletswyddau gorfodadwy rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau, ac o ganlyniad i hynny nododd fod y canlynol yn digwydd: "the inshore fisheries

management regime responsible for managing some of the most damaging impacts in marine protected areas, has side-stepped its responsibilities with respect to improving their management and condition by failing to implement less damaging fishing activities”.

15. Awgrymodd Dr Alan Terry fod dyletswyddau a osodwyd ar Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr wedi arwain at lawer mwy o gynnydd wrth ddynodi parthau cadwraeth morol ac y dylid cyflwyno dyletswyddau tebyg i Lywodraeth Cymru ar frys. Roedd yr Athro Warren yn cefnogi hyn.

16. Ysgrifennodd y Blue Marine Foundation y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol: “setting out a more robust statutory framework for Wales with enforceable duties placed on the Welsh inshore fisheries manager, including mechanisms to deliver conservation objectives and to work collaboratively with other marine managers”.

Y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

17. Sefydlwyd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ym mis Mehefin 2014 i hyrwyddo'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol, ac i annog mwy o gyfranogiad gan awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o rai o'r awdurdodau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

18. Roedd sawl ymateb i'r ymchwiliad yn nodi bod sefydlu'r Grŵp Llywio yn gam cadarnhaol a'i fod yn rhoi ffocws ar gyfer cyflawni'r fframwaith a'r cynllun gweithredu. Fodd bynnag, roedd eraill yn cydnabod bod y Grŵp Llywio wedi wynebu heriau, gan gynnwys diffyg momentwm pan gafodd ei sefydlu gyntaf. Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cydnabod hyn, ond dywedodd fod cryn dipyn o gynnydd wedi'i wneud ers yr adolygiad cychwynnol ddwy flynedd yn ôl.

19. Atgoffodd Porthladd Aberdaugleddau y Pwyllgor mai pwrpas y Grŵp Llywio oedd ystyried a blaenoriaethu camau gweithredu, yn hytrach na chraffu ar benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru.

20. Cododd cyfranwyr at yr ymchwiliad gwestiynau am aelodau'r Grŵp Llywio. Dywedodd yr Athro Warren ei bod yn syndod bod yr aelodau wedi'u cyfyngu i gyrff â chyfrifoldebau rheoli, o ystyried mai un o'i ddibenion oedd cynyddu cyfranogiad gan awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach. Awgrymodd yr Athro Steve

Fletcher hefyd fod aelodaeth y grŵp llywio yn gyfyngedig ac efallai nad oedd yn manteisio ar y gronfa ehangach o ddoniau.

21. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, amlygodd Cyswllt Amgylchedd Cymru nad oedd nifer sylweddol o awdurdodau rheoli statudol Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn aelodau o'r grŵp llywio Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Yn ei hymateb i ymchwiliad cynharach y Pwyllgor, ysgrifennodd y Gweinidog: "Bydd fy adran yn gofyn am farn y Grŵp Llywio i asesu a oes mwy y gallwn ei wneud ar y cyd i annog awdurdodau rheoli i gydweithio neu i rannu arferion gorau".

Fframwaith rheoli a chynllun gweithredu'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

22. Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd y Grŵp Llywio Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer Cymru 2018-2023. Roedd hwn yn cynnwys gwybodaeth am Ardaloedd Morol Gwarchodedig, sut y maent yn cael eu rheoli a chan bwy, a chynlluniau ar gyfer gwella.

23. Ceir cynllun gweithredu blynyddol i gyd-fynd â'r fframwaith sy'n nodi'r camau gweithredu a nodwyd gan y Grŵp Llywio fel blaenoriaethau i wella'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a gwella eu cyflwr. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu diweddaraf ar 1 Awst 2019 ar gyfer y cyfnod 2019-2020. Ynghyd â hyn, cyhoeddwyd adroddiad blynyddol sy'n nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun gweithredu blaenorol. Mae'r adroddiad blynyddol yn tynnu sylw at y ffaith bod sawl prosiect o gynllun gweithredu 2018-2019 dal yn mynd rhagddynt ac wedi'u trosglwyddo i gynllun gweithredu 2019-2020. Ysgrifennodd y Gweinidog hefyd at bob awdurdod rheoli ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig i dynnu sylw at y cyhoeddiadau newydd hyn.

24. Er bod y fframwaith a'r cynllun gweithredu wedi'u cyflwyno, roedd sawl un o'r rhanddeiliaid yn siomedig am y diffyg cynnydd ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad. Dywedodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol: "we haven't seen a fundamental shift in the way that Welsh Government are undertaking marine and fisheries". Ategwyd hyn gan yr Athro Warren, a ddywedodd: "the main thing that's happened, as far as I can see, is the production of this framework for Wales and the action plan, and the best thing I can say about it is, 'isn't it nice to see all these names at the bottom signed up to it?'".

25. Mae'r fframwaith a'r cynllun gweithredu yn ystyried rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig o safbwynt y rhwydwaith cyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol. Esboniodd Porthladd Aberdaugleddau,

sef un o aelodau'r grŵp llywio: "that group has produced a network-level action plan, and a management framework, which is intended to address network-level issues, or strategic-level issues that need to be addressed at a national level". Dywedodd hefyd, "there is only so much that you can achieve at a strategic level... it indicates to me that a lot of the outcomes and products of that group will need to be delivered more locally". Awgrymodd y Porthladd fod angen mwy o ysgogiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'n lleol ac wrth annog asiantaethau a chyfranogwyr lleol i gymryd rhan.

26. Cytunodd Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro (PMSACRAG) nad yw'r cynllun yn ymdrin yn gynhwysfawr â sut i gyflawni camau rheoli. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru: "we've heard a lot that it's about taking a network-level approach and, ultimately, that's because NRW and Welsh Government don't have the resources and capacity, so they're looking at how they can prioritise". Yn yr un modd, ysgrifennodd Blaise Buillimore:

"the Welsh Government] WG routinely focus on their responsibility toward network management, and in doing so disregard and deflect attention from their responsibilities for activity management for the protection of MPAs"

27. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid hefyd nad oedd cynllun gweithredu a fframwaith yn gyfystyr â strategaeth. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ei fod wedi rhoi cyfarwyddyd i'r grŵp llywio Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ond bod y cyfarwyddyd yn seiliedig ar ei adnoddau a'i allu cyfredol, yn hytrach na gweledigaeth strategol ac uchelgeisiol. Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Fletcher fod yr amcanion braidd yn weithdrefnol ac awgrymodd fod angen i'r fframwaith gyflwyno gweledigaeth fwy uchelgeisiol o amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

28. Fodd bynnag, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y Fframwaith wedi rhoi ffocws fel bod modd i Lywodraeth Cymru roi arweiniad. Dywedodd Porthladd Aberdaugleddau hefyd fod y cynllun gweithredu wedi sicrhau rhywfaint o weithredu ac wedi sicrhau rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhai prosiectau sydd â'r nod o fynd i'r afael â materion strategol ar lefel rhwydwaith.

Ein barn ni

Pan fu'r Pwyllgor hwn yn ystyried Ardaloedd Morol Gwarchodedig am y tro cyntaf yn 2017, roeddem yn synnu bod hwn yn faes polisi a oedd wedi'i esgeuluso, o bosibl, gan Lywodraeth Cymru ers blynyddoedd. Croesawodd rhanddeiliaid ein hadroddiad, Y Llanw'n Troi?, ar adeg ei gyhoeddi am ei fod yn

tynnu sylw at y maes polisi hwn a esgeuluswyd. Yn yr ymchwiliad dilynol hwn, rydym wedi ystyried sut y gall ein gwaith fod yn hwb i ddatblygiad pellach unwaith eto.

Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch arafwch y cynnydd ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig cydnabod y cynnydd a wnaed. Mae fframwaith rheoli'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynllun gweithredu cysylltiedig wedi'u cyhoeddi.

Yn ein hadroddiad cychwynnol, ein hargymhelliad oedd bod angen strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Byddai strategaeth o'r fath yn egluro uchelgais Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Yn ein barn ni, nid yw'r fframwaith a luniwyd gan y Grŵp Llywio yn cyflawni dibenion y ddogfen strategol a ragwelwyd gennym na'r hyn yr ydym ni'n credu sydd ei angen. Rydym yn credu y dylai'r strategaeth fod yn sail i'r fframwaith rheoli a'r cynllun gweithredu ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Rhaid iddi gael ei datblygu mewn ymgynghoriad llawn â phartïon sydd â buddiant a rhaid iddi gael ei chyflwyno ar frys.

Nodwn y sylwadau gan randdeiliaid fod dyletswyddau a osodwyd ar Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr wedi arwain at fwy o ffocws ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn enwedig mewn perthynas â physgodfeydd a gwella cydweithrediad. Byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru ystyried y mater hwn ymhellach yn ein barn ni.

Nodwn y sylwadau a wnaed gan aelodau'r Grŵp Llywio ei fod wedi cael momentwm newydd ers cyhoeddi'r adroddiad. Rydym yn croesawu'r cynnydd hwn ac yn credu bod angen i'r Grŵp Llywio adeiladu arno. Nodwn y sylwadau gan arbenigwyr academiaidd a rhanddeiliaid am ba mor gyfyng yw aelodaeth y grŵp. Rydym yn credu y byddai'n werthfawr cael mewnbwn gan ystod ehangach o awdurdodau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a sylfaen ehangach o randdeiliaid. Rydym yn credu y dylai'r Grŵp Llywio ystyried sut y gall ehangu ei aelodaeth. Gellid gwneud hynny mewn amryw o ffyrdd, er enghraifft drwy gynnwys aelodau ychwanegol â statws aelod neu arsylwr neu drwy sefydlu is-grŵp o randdeiliaid.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar frys. Dylai wneud hynny erbyn yr haf 2020. Dylai'r strategaeth ganolbwyntio ar yr angen i ddefnyddio dulliau lleol a dulliau ar lefel rhwydwaith i gyflawni amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol lle y bo'n briodol. Dylai'r fframwaith a'r cynllun gweithredu

fod yn rhan ategol o'r strategaeth. I gyd-fynd â'r strategaeth, dylid darparu esboniad o sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu'r gwaith o Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn barhaus. Dylai'r strategaeth fod yn destun ymgynghoriad llawn a dylid ei hadnewyddu o bryd i'w gilydd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig sut i gael mewnbwn gan sylfaen ehangach o randdeiliaid a mwy o awdurdodau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Gallai hyn gynnwys ehangu'r grŵp i gynnwys aelodau ychwanegol neu greu is-grwpiau perthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad y trafodaethau hyn.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cyflwyno dyletswyddau i Weinidogion Cymru, yn debyg i'r dyletswyddau ar Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a dylent adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn.

2. Staffio ac adnoddau

29. Yn ei adroddiad cychwynnol, “Y Llanw’n Troi?”, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn o ran staffio ac adnoddau:

“Ni ellir rheoli MPAs yn effeithiol heb y lefel briodol o adnoddau, gan gynnwys cyllid a staffio. Rhaid i Lywodraeth Cymru:

sicrhau bod ganddi ddigon o staff i gyflawni ei chyfrifoldebau ym maes cadwraeth y môr;

cyflwyno cynigion ar gyfer cyllido dull gweithredu sy’n seiliedig ar ardaloedd, a sicrhau bod gan bob ardal reoli ei swyddog dynodedig ei hun; a

sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran rheoli MPAs a gwella Rhwydwaith Natura 2000 Cymru.”

“Mae’r Pwyllgor yn argymhell, wrth ddynodi MPAs yn y dyfodol, y dylai Llywodraeth Cymru nodi’r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith rheoli, monitro, goruchwyllo a gorfodi y bydd gofyn ei wneud ar safle(oedd) a sut y darperir adnoddau o’r fath.”

30. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad.

31. Roedd adnoddau o ran cyllid a staff yn parhau i fod yn destun pryder i nifer o’r rheini a ymatebodd i’r ymchwiliad dilynol. Mewn llythyr at awdurdodau rheoli, dyddiedig 1 Awst 2019, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu pedwar o’r camau gweithredu ar gost o £138,500 yn ystod y flwyddyn honno.

32. Dywedodd y Gweinidog hefyd mewn llythyr at y Pwyllgor fod y gyllideb Môr a Physgodfeydd wedi’i chynyddu i:

“...gefnogi’n swyddogaethau estynedig yn yr ardal forol ar y môr. Mae yna ddyraniad ychwanegol o £600,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020. Bydd elfennau o’r arian ychwanegol hwn yn cefnogi’r gwaith o nodi a dynodi ardaloedd gwarchodedig newydd yn y rhanbarth morol dyfnach ar y môr, fel bo angen, i gwblhau’n cyfraniad tuag at rwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi’i reoli’n dda.”

33. Can gyfeirio at y cyllid a ddarparwyd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu, pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai hwn oedd y tro cyntaf i gronfa ganolog gael ei chyfeirio at weithgarwch rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig â blaenoriaeth. At hynny, roedd y Cynllun Gweithredu'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi prosiectau allweddol ac roedd wedi rhoi £250,000 o grantiau sy'n cefnogi prosiectau gan sefydliadau eraill nad ydynt yn awdurdodau rheoli statudol, sydd oll yn sicrhau buddion o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Nododd yr Athro Fletcher nad oedd y Fframwaith yn cynnwys amcan yn ymwneud ag adnoddau. Roedd hyn yn hepgoriad difrifol, yn ei farn ef, a fyddai'n effeithio ar allu awdurdodau i gyflawni polisiau Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Roedd cryn dystiolaeth, oni ellid sicrhau sylfaen adnoddau gref, na fyddai dim o'r gwaith arall yn cael ei wneud.

34. Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, eu bod yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, "ddarparu'r prif gyllid craidd ar gyfer rheoli safleoedd AMG, gan gynnwys swyddi swyddogion System Reoli Amgylcheddol, gydag awdurdodau perthnasol yn parhau i wneud cyfraniadau ychwanegol".

35. Awgrymodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fod angen golwg ehangach ar fanteision rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn enwedig y manteision hynny sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Byddai hyn yn golygu bod modd cyfeirio mwy o arian at reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Defnyddiodd Flwyddyn y Môr fel enghraifft:

"I can only assume that the amount of money spent on promoting Wales to the world via the sea last year was in millions. We seem to be having discussions about the core element of that—the management of marine protected areas—in the thousands or the tens of thousands. So, I entirely agree with your point about the lack of funding, and challenges on funding, but, arguably, we need to take a different view."

Dull gweithredu ar sail ardal

36. Yn 2015 bu'r Grŵp Llywio yn ystyried opsiynau ar gyfer rheoli'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru, ac roedd yn ffafrio dull lleol â saith ardal reoli. Bu'r grŵp hefyd yn ystyried dull â phedair ardal reoli gyda mwy nag un swyddog, yn dibynnu ar anghenion yr ardal. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad, "na fyddai'r naill opsiwn na'r llall yn ymarferol ar hyn o bryd oherwydd diffyg adnoddau". Cyfeirir at y dulliau hyn fel dulliau ar sail ardal.

37. Yn ei hymateb i'r ymchwiliad blaenorol, nododd y Gweinidog: "Rwy'n cefnogi canlyniad y gwaith hwn lle y daeth y Grŵp Llywio i'r casgliad y byddai'n fwy cost-ffeithiol, ac yn sicrhau gwell gwerth am arian, pe baem yn canolbwyntio ar brosiectau penodol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gyflwr nodweddion".

38. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor lawer o gefnogaeth gan y rheini a gyfrannodd i ymchwiliad gwreiddiol y Pwyllgor ac yn ystod y gwaith dilynol hwn i ddull gweithredu ar sail ardal, gan gynnwys cefnogaeth gan aelodau'r Grŵp Llywio.

39. Dywedodd Porthladd Aberdaugleddau, sef aelod o'r Grŵp Llywio, y dylid ailystyried y ffocws presennol ar ariannu prosiectau tymor byr o blaid cyllid ar gyfer gweithgarwch rheoli parhaus gan Grwpiau Awdurdod Perthnasol wedi'u cefnogi gan swyddogion lleol. Roeddent yn teimlo bod y dull hwn yn cynnig gwell gwerth am arian ac yn fwy effeithlon, gan fod gwneud ceisiadau rheolaidd am arian prosiect yn cymryd llawer o amser i swyddogion lleol:

"the RAGs as they exist in Wales...have demonstrated that having a local officer, co-funded by the various management authorities to deliver their responsibilities collectively, has been a cheap and effective model for MPA delivery. Now, at the moment, NRW contributes a small amount of funding to a couple of RAGs. Welsh Government contributes no direct funding to RAGs, but other local management authorities do."

40. Dywedodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol fod swyddogion safle annibynnol lleol yn hanfodol i'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dywedodd Dr Terry ei bod hi'n gwneud llawer o synnwyr cael swyddogion safle:

"They know their patch, they see how things are changing over time and they liaise with stakeholders, and so on, and monitor long-term changes. So, it does make a lot of sense to move towards an area base."

41. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y grŵp llywio wedi ystyried dull ar sail ardal, ond aeth ymlaen:

"in reviewing the final outcomes, we were of the view that it wasn't affordable but that we'd keep it on the table just in case funds allowed. But then, in a review of the final outcomes, we realised that we needed to look across all of the network, rather than just focus on the areas, and that was the only sustainable way to take the network forward."

42. Fodd bynnag, esboniodd Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro fod y penderfyniad wedi'i wneud o ganlyniad i

ystyriaethau cyllid: “NRW and Welsh Government were of the opinion at the time that they could not fund the proposed MPA network and so further discussion on area-based funding was shelved”. Dywedodd Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro hefyd mai'r cynnig a gyflwynwyd oedd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r un faint o gyllid ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ledled Cymru gyfan ag un awdurdod lleol neu borthladd yn unig.

43. Roedd yn ymddangos hefyd fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn awgrymu y gallai'r grŵp llywio fod wedi dod i benderfyniad gwahanol pe bai cyllid ar gael. Dywedodd:

“Going back to that time, I would almost say that, if there was a sum of money available to support this work, then a discussion by that group about how you would best spend those resources could well come to a different conclusion.”

44. Tynnodd y Blue Marine Foundation sylw at y ffaith fod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd wahanol, fel awdurdod cymwys, i reolwyr pysgodfeydd eraill (megis Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr) a'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Gwnaethant awgrymu bod hyn wedi arwain at ddiffyg cyfranogiad gan Lywodraeth Cymru yng ngwaith Grwpiau Awdurdodau Perthnasol yng Nghymru. Dywedodd: “loss of the Welsh fisheries management authority from RAG membership undermines fully integrated and collaborative management approaches”.

Adnoddau staffio Llywodraeth Cymru

45. Parhaodd rhai cyfranwyr i fynegi pryder ynghylch capasiti adnoddau staffio Llywodraeth Cymru, o ran nifer ac arbenigedd. Dywedodd Blaise Bullimore yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“The number of [the Welsh Government’s] WG staff specifically tasked with marine conservation and biodiversity has increased marginally since 2010, but it is still not enough and just a tiny fraction of the hugely increased complement of the WG’s Marine and Fisheries Division - just four (including a secondee from the UK Joint Nature Conservation Committee) of the 104 posts identified in the most recent M&FD structure chart.”

46. Cydnabu Dr Terry fod diffyg tryloywder ynghylch yr adnoddau staffio a'r adnoddau cyllid a neilltuwyd ar gyfer pysgodfeydd a chadwraeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru

- 47.** Cydnabu'r Athro Warren fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru adnoddau cyfyngedig a llwyth gwaith enfawr, ond roedd yn cwestiynu a oedd yn canolbwyntio digon ar faterion morol, o ystyried bod mwy na 50 y cant o'r ardal y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ofalu amdani yn forol.
- 48.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cefnogaeth iddo ers 2015 ar gyfer capasiti i helpu i gyflawni amrywiaeth o feysydd gwaith â blaenoriaeth ar draws y rhaglen ehangach o waith morol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dwy swydd sydd, ymhlith meysydd eraill o waith rhaglenni morol, yn cyflwyno prosiectau sy'n ymwneud â thystiolaeth a chamau gweithredu o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.
- 49.** Yn dilyn aildrefnu sefydliadol yn ddiweddar, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai 60 o swyddi yn cael eu neilltuo ar gyfer gwaith morol. Nid oedd hyn yn gyfystyr â newid yr "amlen adnoddau", ond roedd yn ganlyniad i ddod â llawer o ddarnau o weithgarwch morol mewn gwahanol rannau o'r sefydliad at ei gilydd o dan wasanaeth gweithredu morol a dau dîm strategol, gydag un yn canolbwyntio ar bolisi a'r llall ar faterion technegol. Roedd hyn yn golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn symud i sefyllfa gryfach o lawer i ymdrin â materion rhwydwaith, a materion mwy lleol a rhai sy'n benodol i ardal, gyda'i gilydd.
- 50.** Yn ei lythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 1 Ebrill 2019, tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at effaith y gostyngiad mewn cymorth grant a oedd wedi golygu bod yn rhaid iddynt leihau'r gwaith a wneir ar draws ystod o wasanaethau gan gynnwys llai o waith monitro bioamrywiaeth ddaearol a morol.

Ein barn ni

Yn yr un modd â'n hymchwiliad cychwynnol, roedd rhanddeiliaid yn parhau i fynegi pryder ynghylch materion staffio ac adnoddau.

Mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y maes polisi hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyllid ychwanegol wedi'i ryddhau i gyflawni prosiectau a chamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r sylwadau gan rhanddeiliaid ynghylch cyfyngiadau dull cyllido sy'n canolbwyntio'n unig ar gyflawni prosiectau penodol, yn enwedig o ran sicrhau gwerth am arian yn yr hirdymor.

Nodwn fod y mwyafrif llethol o rhanddeiliaid yn parhau i gefnogi cyfuniad o'r dull gweithredu ar sail ardal a swyddogion safle lleol. Yn wir, dywedodd aelodau'r

grŵp llywio wrthym, pe bai cyllid wedi bod ar gael i sicrhau bod dull gweithredu ar sail ardal yn hyfyw, gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid, mae'n debygol y byddai'r grŵp wedi dod i benderfyniad gwahanol ynghylch p'un ai i ddilyn y dull hwn ai peidio. Roedd rhanddeiliaid yn glir y byddai'n well ganddynt weld dull ar sail ardal ac y byddai hynny'n sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.

At hynny, nodwn farn rhanddeiliaid bod angen ystyried ymhellach y drefn o ran cyllido'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Yn benodol, nodwn yr awgrymiadau y dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn cyfrannu mwy o gyllid ar gyfer rheoli, yn unol â'u cyfrifoldebau. Rydym yn credu ei bod hi'n amser priodol nawr i ailystyried y drefn gyllido.

Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y byddai'n fanteisiol cael dull integredig o reoli ac rydym yn awgrymu y byddai manteision pe bai Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ystyried gyda Grwpiau Awdurdodau Perthnasol sut y gallant weithio mewn modd mwy integredig.

Mae rhanddeiliaid yn parhau i dynnu sylw at ddiffyg tryloywder ynghylch niferoedd staff a threfniadau Llywodraeth Cymru o ran cadwraeth forol. Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru egluro'r mater hwn.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ar gyfer dull gweithredu ar sail ardal a fyddai'n gweld awdurdodau rheoli yn rhoi swm o arian yn y pot sy'n gymesur â maint yr ardal warchodedig y mae ganddynt gyfrifoldeb amdani. Dylai'r cyllid hwn fod yn ychwanegol at y cyllid ar gyfer y camau yn y Cynllun Gweithredu, yn hytrach nag yn lle'r cyllid hwnnw.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, mewn trafodaeth â phum Grŵp Awdurdod Perthnasol Cymru, sut y bydd Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn datblygu dull mwy integredig o weithio gyda'r grwpiau hyn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r nifer benodol o staff yng nghangen cadwraeth forol Is-adran y Môr a Physgodfeydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

3. Ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid

51. Yn ei adroddiad cychwynnol, “Y Llanw’n Troi?”, argymhellodd y Pwyllgor:

“Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu’n well â rhanddeiliaid a’r cyhoedd a gweithredu mewn ffordd fwy tryloyw ac effeithlon, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau’r grwpiau arbenigol y mae’n eu harwain. Dylai rhanddeiliaid gael ymwneud yn llawn â datblygu’r strategaeth MPAs. Rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau ymwybyddiaeth o MPAs ymhlith y cyhoedd.”

52. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

53. Yn ogystal â’r materion yn ymwneud ag aelodaeth y Grŵp Llywio, yr aed i’r afael â hwy ym Mhennod 1 o’r adroddiad hwn, roedd diffyg ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn parhau i fod yn broblem i rai cyfranwyr.

54. Roedd y Cymdeithas Cadwraeth Forol yn credu ei bod yn bwysig y dylai rhanddeiliaid allu dylanwadu ar ddatblygiad y Cynllun Gweithredu a chefnogi’r gwaith o gyflawni, a thynnodd sylw at enghreifftiau lle gallai sefydliadau ag arbenigedd mewn meysydd penodol fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at waith y Grŵp Llywio:

“They’re looking at community litter projects—the MCS weren’t there to help....They’ve already looked at how they’re going to do it without actually involving the stakeholders who could provide that information.”

55. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru o’r farn bod Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gellid gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid a’u bod yn ystyried ffyrdd o wneud hynny. Un awgrym oedd creu is-grŵp bioamrywiaeth o fforwm rhanddeiliaid morol Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol. Ychwanegodd Cyswllt Amgylchedd Cymru: “the key with that will be to make sure that it is a team collaborative effort where everybody suggests what should be on the agenda, rather than it being Welsh Government dictating what the meetings are about”.

Ymgysylltu â’r cyhoedd

56. Yn ymateb y Gweinidog i’r ymchwiliad gwreiddiol cyfeiriodd at Flwyddyn y Môr 2018, gan ddweud:

“Mae fy adran yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau ein bod yn manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd y mae’r ymgyrch hon yn eu cynnig i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o’n safleoedd.”

57. Nododd sawl cyfrannwr fod Blwyddyn y Môr 2018 wedi bod yn gyfle i ymgysylltu mwy â’r cyhoedd ar faterion morol. Fodd bynnag, roedd llawer yn cwestiynu i ba raddau y llwyddwyd i wneud hynny. Awgrymodd Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro fod blaenoriaethau eraill, fel Brexit, wedi rhwystro cynnydd a dywedodd fod dealltwriaeth y cyhoedd o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, eu pwrpas a’u manteision, dal yn isel ar y cyfan.

Ein barn ni

Rydym yn nodi sylwadau rhanddeiliaid am ddiffyg effaith Blwyddyn y Môr 2018. Mae hyn yn siomedig, yn enwedig o ystyried y pwyslais a roddwyd ar hyn gan y Gweinidog yn ei hymateb i’n hadroddiad cychwynnol fel cyfle i wella ymgysylltiad y cyhoedd â pholisi Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Dylai’r Gweinidog ddarparu asesiad i ni o effaith mentrau Blwyddyn y Môr, gyda ffocws penodol ar ei heffaith ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chadwraeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu bioamrywiaeth fel un o’r blaenoriaethau yn ei pharatoadau ar gyfer y gyllideb. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ystyriaeth allweddol mewn perthynas â’r flaenoriaeth hon.

O ystyried gwerth arfordir Cymru i’r sector twristiaeth yng Nghymru, rydym yn credu hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth dwristiaeth sydd ar ddod yn rhoi sylw i fioamrywiaeth a chadwraeth, yn benodol o ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Er mwyn sicrhau bod dull integredig yn cael ei fabwysiadu a bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu hadlewyrchu’n briodol mewn strategaethau twristiaeth a strategaethau cysylltiedig eraill, rydym yn credu y dylid ystyried gwahodd cynrychiolwyr o’r sector twristiaeth bywyd gwyllt i gymryd rhan yng Ngrŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG).

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth dwristiaeth sydd ar ddod yn rhoi sylw i fioamrywiaeth a chadwraeth forol.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector twristiaeth bywyd gwyllt morol i'w gwahodd i Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol a dylai roi diweddariad ar hynt sefydlu is-grŵp Bioamrywiaeth o Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.

4. Cyflwr Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru

58. Yn ei adroddiad cychwynnol, “Y Llanw’n Troi?”, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn mewn perthynas â chyflwr y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig:

“Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth orfodi sy’n seiliedig ar risgiau ac sy’n mynd i’r afael â’r holl bwysau sydd ar MPAs, gan gynnwys ansawdd dŵr, sbwriel, pwysau yn sgil gweithgareddau hamdden; pysgodfeydd a chasglu adnoddau morol sydd heb eu rheoleiddio; a dylai symud yn gyflym i roi camau rheoli ar waith yn yr MPAs y gwyddys eu bod dan fygythiad.”

Ac:

“Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylid sicrhau bod data, tystiolaeth ac ymchwil ar gael yn elfen ganolog o ddatblygu a rheoli polisi MPAs. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaeth gwyddor môr yng Nghymru i ddwyn diwydiant, academia a rhanddeiliaid ynghyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod ganddi ddata ac ymchwil effeithiol ar waith i reoli MPAs, gan gynnwys gwaith monitro a gwyliadwriaeth.”

59. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad mewn egwyddor.

Gorfodi a gweithredu mesurau rheoli

60. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at waith ar fesurau rheoli o dan y Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru:

“The Welsh Government and NRW are undertaking a comprehensive project to assess the impacts of all marine fisheries activities from licensed and registered fishing vessels on protected features of European Marine Sites in Wales...NRW is leading on the production of these fishing gear assessments...Welsh Government will use the assessments to consider any management which may be required to address potential impacts on a site-by-site or all-Wales basis. The project’s outputs will be used to support the aims of The Habitats Directives/Habitats Regulations, The Environment Act and The Wellbeing of Future Generations Act.”

61. Dechreuodd prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru ar adeg ymchwiliad cyntaf y Pwyllgor i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Cyhoeddwyd yr asesiadau cyntaf gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer achosion o ryngweithio “risg uchel” porffor rhwng gweithgareddau pysgota a nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn 2017. Gwnaeth nifer o’r cyfranwyr sylwadau ar ddiffyg cynnydd Llywodraeth Cymru ar brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru ers yr ymchwiliad diwethaf. Esboniodd Cyswllt Amgylchedd Cymru nad oes dim mesurau rheoli wedi’u rhoi ar waith o dan y prosiect o hyd.

62. Nododd y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“MCS is extremely concerned that there has been management inaction by the Welsh Government, that could have resulted in better management of MPAs, namely the Assessing Welsh Fishing Activities (AWFA) project.”

63. Nododd Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro hefyd y byddai prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru yn arwain at welliannau uniongyrchol i reoli safleoedd ond bod y prosiect wedi’i fwrw i’r cysgod ers dechrau Brexit. Tynnodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol sylw at hyn hefyd, gan ddweud mai’r rheswm a roddir iddi am ddiffyg gweithredu gan reolwyr oedd am nad oes amser.

Monitro bioamrywiaeth forol

64. Wrth ymateb i ymholiad cychwynnol y Pwyllgor, nododd y Gweinidog:

“Rydym ni a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio’n agos â’r Cydggyngor Cadwraeth Natur (JNCC) ac asiantaethau cadwraeth natur gwledydd eraill i ddatblygu dull cyson sy’n seiliedig ar dystiolaeth o fonitro a chadw golwg ar ein gwefannau. Bydd y gwaith hwn yn dod i ben yr haf nesaf. Byddwn yn adolygu ein dull o fonitro safleoedd ymhellach pan fydd y gwaith hwn wedi’i gwblhau. Byddaf yn rhoi diweddariad i’r Pwyllgor ar ôl i’r cynigion gael eu llunio’n llawn.”

65. Disgrifiodd Cyfoeth Naturiol Cymru y rhaglen hon, sy’n ymdrin â monitro morol y tu mewn a’r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ganddo i’r ymchwiliad. Dywedodd mai’r amcan yw cyflawni rhwymedigaethau o ran cadwraeth natur ar gyfer monitro mewn modd mwy cydgysylltiedig a chost-effeithiol, gan ddilyn dull gweithredu sy’n seiliedig ar risg wrth gynllunio rhaglenni. Disgrifiodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd amrywiaeth o waith monitro ac adrodd a fydd yn bwydo i mewn i’r rhaglen hon,

gan gynnwys adroddiadau Erthygl 17 o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Dywedodd:

“This round of Article 17 reporting has not been published or submitted to Europe yet and the assessments are not completed at the country level. However, after the Article 17 reports are submitted it is anticipated, depending on resources, that Wales will produce some country level reports to aid understanding of the state of Annex I and Annex II habitats and species in Welsh waters.”

66. Gwnaed adroddiadau ychwanegol yn unol â'r Confensiwn ar warchod yr amgylchedd morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd (Confensiwn OSPAR). Wrth sôn am fonitro OSPAR, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

“In 2018 the second OSPAR MPA management effectiveness assessment of Welsh EMS was carried out. This is part of a very high-level assessment of the management of MPAs across the whole of the OSPAR network. All Welsh sites were again assessed at a level of ‘partial’ in the overall assessment, which reflects the fact that some management mechanisms are in place but there is still progress to be made variably across the network.”

Monitro ac adrodd ar gyflwr safleoedd Ardaloedd Morol Gwarchodedig

67. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu asesiadau cyflwr dangosol ar gyfer nodweddion yn Safleoedd Morol Ewropeaidd Cymru, sy'n cynnwys yr holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol. Roedd yr asesiadau hyn yn ystyried statws cadwraeth y nodweddion (rhywogaethau a chynefinoedd) ar lefel y safle. Fe wnaeth y rhain ganfod bod 45 y cant o'r holl nodweddion dynodedig mewn cyflwr ffafriol, tra bod 45 y cant mewn cyflwr anffafriol, gyda gwahanol raddau o hyder yn yr asesiad.

68. Dywedodd yr Athro Fletcher fod yr asesiadau cyflwr safle yn syndod o wael, o ystyried ers faint o amser y mae'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi'u dynodi. O ystyried bod rhai dynodiadau wedi bod ar waith ers dros ddeng mlynedd, roedd yn syndod bod cymaint o'r adroddiadau cyflwr safle'n dod o dan y categorïau “anffafriol” neu “ddim gwybodaeth”. At hynny, eglurodd nad yw asesiad yr adroddiad cyflwr yn dweud mewn gwirionedd beth oedd y cyflwr safle yn flaenorol. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd barnu effaith gwaith rheoli.

69. Esboniodd Porthladd Aberdaugleddau nad oes trefniadau rheoli gweithredol ar waith mewn llawer iawn o'r safleoedd cadwraeth dynodedig a'r ardaloedd morol gwarchodedig hyn. Dywedodd Blaise Bullimore, wrth i fwy o ddata a gwybodaeth gael eu hychwanegu, mae mwy a mwy o dystiolaeth bod cyflwr y nodweddion sy'n cael eu monitro, yn enwedig nodweddion cynefin, yn waeth na'r hyn a dybiwyd yn flaenorol, ac mewn rhai achosion, mae'n debyg eu bod yn parhau i ddirywio.

70. Can gyfeirio at effaith y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, eglurodd Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd yn cymryd amser i ganfod unrhyw newidiadau yng nghyflwr nodweddion o ganlyniad i'r camau a gymerwyd, ac felly:

“...it is too early to say definitively whether any action in the MPA management action plan has led to improved condition – even major changes in activities can take many years to show a change in condition due to the time needed to show change and the difficulty of monitoring change.”

71. Nododd Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro hefyd fod angen dull hirdymor: “Because multiple issues are affecting feature condition, and because improvements can take time to manifest”. Fodd bynnag, pwysleisiodd:

“According to NRW’s indicative site condition reports and our own observations, site features within the Pembrokeshire Marine SAC have generally not shown improvement since site designation.”

72. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor hwn fod “prosiect i ddatblygu proses adrodd gynaliadwy a pharhaol ar gyflwr nodweddion ar lefel safleoedd ar y trywydd iawn i gyflawni argymhellion yn gynnar yn 2022”. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud:

“It is unlikely that resources and suitable evidence sources will all be available at any given time to monitor and report on all features, or to report with the same level of confidence. Our aim, however, is to develop, over the coming few years, an assessment and reporting process that is of practical use in informing effective site management.”

73. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ei fod yn bryderus gan nad yw adroddiadau ar gyflwr safleoedd yn ofyniad statudol, y byddant yn dod i ben neu'n dod yn llai o flaenoriaeth. Dyfynnodd dystiolaeth flaenorol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn nodi:

“Site Condition Reports are the tool that most partners, management authorities, and WG, request from NRW to support effective MPA management decisions. This is a challenge for NRW to resource as there is no statutory requirement to produce such reports or collect the relevant monitoring information”.

Strategaethau tystiolaeth forol

74. Ym mis Medi 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru, a ddatblygwyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Dibenion penodol y Strategaeth yw nodi'r blaenoriaethau lefel uchel a strategol o ran tystiolaeth forol sydd eu hangen i gefnogi polisiau a chynlluniau morol Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru drwy:

- ddarparu fframwaith i gefnogi casglu tystiolaeth forol a'i defnyddio'n well;
- llywio'r gwaith o weithredu, monitro ac adolygu camau gweithredu i fodloni'r blaenoriaethau o ran tystiolaeth;
- gwella cydweithio, cydgysylltu a rhannu gwybodaeth wyddonol ymhlith rhanddeiliaid tystiolaeth forol Cymru; a
- helpu i gysoni a datblygu capasiti tystiolaeth forol Cymru a hyrwyddo arloesedd.

75. Er nad oedd y strategaeth dystiolaeth wedi'i chyhoeddi ar adeg ymchwiliad y Pwyllgor, croesawodd WEL y Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru sydd ar ddod, oherwydd ei bod yn gyfle cadarnhaol i Is-adran Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru symud i fod â ffocws canolog ar gyfer ei sylfaen dystiolaeth, gyda strategaeth glir a rennir yn cefnogi ei bortffolio rheoli morol eang o gynllunio morol, i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dywedodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol:

“The Marine Evidence Strategy should address marine biodiversity evidence gaps that are hindering conservation efforts. However, this should not have a focus on fisheries management but rather on marine management overall, with fisheries as one of the activities.”

76. Roedd Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd gyda Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) y dywedodd y Gweinidog y bydd “yn darparu llinell sylfaen o dystiolaeth gyfredol a blaenoriaethau amlinellol ar gyfer 2019-2020 ymlaen”.

Ein barn ni

Nodwn y sylwadau gan rai rhanddeiliaid fod canlyniadau'r asesiadau o gyflwr y safle yn siomedig, yn enwedig o gofio bod rhai o'r dynodiadau wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y bydd yn cymryd cryn amser i gamau gweithredu arwain at ganlyniadau, ac y bydd hynny'n digwydd dros nifer o flynyddoedd weithiau. Fodd bynnag, yn sgil yr asesiadau, mae'n rhesymol i ni ddod i'r casgliad mai anghyson y bu'r cynnydd ar draws y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, er bod rhywfaint o drefniadau rheoli gweithredol ar waith.

Rydym yn pryderu am y diffyg cynnydd gyda phrosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Mae'r asesiadau ar gyfer gweithgareddau risg uchel wedi'u cyhoeddi ers 2017. Rydym yn credu y dylid bwrw ymlaen a hyn ar frys. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gwblhau'r asesiadau sy'n weddill o dan y prosiect cyn gynted â phosibl.

Mae cyflwyno adroddiadau ar gyflwr safleoedd yn rhan hanfodol o'r broses fonitro ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn ein barn ni. Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud bod disgwyl y bydd prosiect ar gyfer darparu proses adrodd gynaliadwy ar lefel safle yn cyflwyno argymhellion yn gynnar yn 2022. Ond rydym hefyd yn pryderu am awgrym Cyfoeth Naturiol Cymru, o ystyried y goblygiadau o ran adnoddau, fod risg y bydd y trefniadau'n llai cadarn yn y dyfodol. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o sicrhau y cynhelir cywirdeb y dull o adrodd ar gyflwr safleoedd, a dylai hyn gynnwys ymgynghori ynghylch a ddylid rhoi gofynion i adrodd a chasglu data ar gyflwr nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ar lefel safle yng Nghymru, ar sylfaen statudol.

Mewn perthynas â thystiolaeth a data am Ardaloedd Morol Gwarchodedig, rydym yn credu y dylid mynd i'r afael â bylchau o ran tystiolaeth ynghylch Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy'r Cynlluniau Tystiolaeth Forol a Thystiolaeth Pysgodfeydd, yn enwedig gan mai bwriad y gwaith hwn yw creu llinell sylfaen i lywio blaenoriaethau polisi yn y dyfodol.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw mesurau rheoli wedi eu gweithredu eto o ganlyniad i asesiadau Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru ar gyfer gweithgareddau risg uchel, a gyhoeddwyd yn 2017. Dylai gyflwyno ymgynghoriad ar opsiynau rheoli ar gyfer y gweithgareddau hynny ar frys. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar amserlen gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

ar gyfer cwblhau'r asesiadau sy'n weddill, ond ni ddylai hynny fod yn hwyrach na mis Ionawr 2021 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru asesu lefel yr adnoddau y bydd eu hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau'r gwaith hwn.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor ddymunol fyddai gwneud y gwaith o gynhyrchu adroddiadau cyflwr nodweddion ar lefel safle a chasglu gwybodaeth fonitro berthnasol yn ofyniad statudol.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod bylchau tystiolaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael sylw drwy roi'r Cynlluniau Tystiolaeth Morol a'r Cynlluniau Tystiolaeth Pysgodfeydd ar waith.

5. Cwblhau rhwydwaith ecolegol gydlynol

77. Yn ei adroddiad cychwynnol, “Y Llanw’n Troi?”, argymhellodd y Pwyllgor:

“Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio’r hyn y mae Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol o MPAs yn nyfroedd Cymru yn ei olygu a dylai gydweithio â rhanddeiliaid i fynd i’r afael â bylchau yn y rhwydwaith.”

78. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad.

Dynodi Parth Cadwraeth Morol

79. Ar hyn o bryd mae un Parth Cadwraeth Morol yng Nghymru, sef y dyfroedd o amgylch Ynys Skomer yn Sir Benfro. Cafodd Skomer ei throi o fod yn Warchodfa Natur Forol i fod yn Barth Cadwraeth Morol. Cyflwynodd *Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009* bwerau newydd i Weinidogion Cymru ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn rhanbarth glannau Cymru. Mae’r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol i fod yn rhan o rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ehangach y DU (Adran 123).

80. Yn 2012, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar opsiynau ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol gwarchodedig iawn. Dywedodd Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd: “cafwyd ymateb da iawn i’r ymgynghoriad, a mynegwyd safbwyntiau amrywiol a chryf”. Mewn ymateb, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gyda chefnogaeth Grŵp Ffocws Rhanddeiliaid, i ystyried bwrw ymlaen a Pharthau Cadwraeth Morol yng Nghymru a chynghori Llywodraeth Cymru ar hynny. Cyhoeddodd y tîm ei adroddiad a’i argymhellion yn 2013.

81. Cyhoeddwyd dadansoddiad o’r cynnydd o ran datblygu rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru yn 2016. Yn fuan ar ôl hynny, gwnaeth Deddf Cymru 2017 ymestyn y pwerau i ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Morol yn rhanbarth môr mawr Cymru (ardaloedd o ddyfroedd Cymru y tu hwnt i derfyn 12 milltir fôr y moroedd tiriogaethol).

82. Mewn llythyr at y Pwyllgor hwn, dyddiedig 17 Ebrill 2019, cadarnhaodd Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, y câi dynodiadau Parthau Cadwraeth Morol eu hystyried i fynd i’r afael â bylchau yn rhwydwaith yr MPA. Dywedodd:

“Mae’r gwaith sydd ar droed i nodi Parthau Cadwraeth Morol yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar gyflawni canlyniadau asesiad

rhwydwaith 2016, a oedd yn ystyried rôl cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn gallu symud llawer yn y rhwydwaith. Cam nesaf gwaith Parthau Cadwraeth Morol fydd ystyried a oes angen rhagor o warchodaeth ofodol ar gyfer rhywogaethau symudol iawn, fel adar môr a theulu'r morfil.”

83. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd, gan gynnwys rhanddeiliaid, er mwyn nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl. Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2019 a chyhoeddwyd cofnodion y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2019.

84. Dywedodd Sue Burton, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd:

“I think the only logical and really productive addition to the network would be some highly protected areas where we can properly understand marine ecological functioning. So, concentrate on what we've got, try and improve what we've got, add some highly protected areas and focus on research in those areas to help the network as a whole, and don't spread yourself any thinner than that.”

85. Mynegodd yr Athro Warren farn debyg yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, gan nodi: “there is also much merit in establishing some highly protected sites either within existing MPAs or as additional sites”. Mynegodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol y farn hon hefyd.

86. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, gydnabu Cyswllt Amgylchedd Cymru fod angen dynodiadau Parthau Cadwraeth Morol newydd a dywedodd ei fod wedi aros dwy flynedd i Lywodraeth Cymru greu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Parthau Cadwraeth Morol. Dywedodd y byddai angen adnoddau sylweddol i nodi, dynodi a rheoli Parthau Cadwraeth Morol.

87. Dywedodd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB): “we've been very concerned with the marine conservation zone task and finish group because, currently, the intention is not to consider mobile species within the work to designate MCZs”. Yn yr un modd, ysgrifennodd Cyswllt Amgylchedd Cymru: “it is our understanding that this is due to resource constraints, despite the ecological need being apparent”.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd, gan gynnwys rhanddeiliaid, i ddynodi Parthau Cadwraeth

Morol posibl. Nodwn, fodd bynnag, i gofnodion ei gyfarfod cyntaf gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019. Rydym yn siomedig braidd ei bod wedi cymryd cyhyd ers cyhoeddi ein Hadroddiad cyntaf i'r Grŵp gael ei sefydlu. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ar gynnydd y Grŵp maes o law.

Fel rhan o'i waith, rydym yn credu y dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ystyried yr angen am ddynodiadau Parthau Cadwraeth Morol gwarchodedig iawn. Rydym yn cydnabod bod hwn wedi bod yn fater arbennig o ddadleuol yn y gorffennol, ond ni ddylai hynny olygu na ellir ystyried y mater pwysig hwn eto. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym yn credu y bydd angen i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid a'r rheini y gallai hyn effeithio arnynt, gan gynnwys pysgotwyr.

Nodwn y pryderon efallai na fydd rhywogaethau symudol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol. Mae angen rhoi sylw i'r hepgoriad hwn yn ein barn ni. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol a gyflwynir ar gyfer ymgynghoriad gynnwys gwybodaeth am y rhywogaethau symudol yn yr ardal honno ac asesiad o rinweddau ychwanegu'r rhywogaethau symudol hynny fel nodweddion dynodedig ar y safle.

Byddem yn croesawu diweddariad gan y Gweinidog ar yr amserlen ar gyfer cwblhau gwaith y Grŵp. Nawr ei fod wedi'i sefydlu, rydym yn credu y dylid cynnal momentwm. Rydym yn credu y dylai'r Grŵp gyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyn gynted ag y bo modd, ond ni fyddem yn disgwyl i hynny fod yn hwyrach na mis Chwefror 2020.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar hynt gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol posibl. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn hwyrach na mis Chwefror 2020 fan bellaf.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ystyried, fel rhan o'i waith, yr angen am ddynodiadau Parthau Cadwraeth Morol gwarchodedig iawn. Dylid ymgynghori'n helaeth â phartion â buddiant, fel pysgotwyr, er mwyn llywio'r ystyriaeth hono.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddatblygu cynllun ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar gyfer rhywogaethau symudol.

6. Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

88. Yn ei adroddiad cychwynnol, “Y Llanw’n Troi?”, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn mewn perthynas a goblygiadau ymadael â'r UE:

“Un o gonglfeini rheoli MPAs yw sicrhau atebolrwydd a llwybr at gyfiawnder. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn unol â Chonfensiwn Aarhus ac nad ydynt yn rhy ddrud i ymgeiswyr.”

“Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith debygol gadael yr Undeb Ewropeaidd ar MPAs Cymru, gan gynnwys a oes modd cysoni'r drefn ddynodi a rheoli, gan ymrwymo i sicrhau na chollir dim gwarchodaeth o dan drefniadau'r dyfodol. Rhaid iddi hefyd geisio cytundeb â Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y caiff trefniadau i warchod yr amgylchedd morol eu rheoli'n gydlynol mewn ardaloedd morol sy'n croesi ffiniau.”

“Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau am gyflwr a statws safleoedd MPAs Cymru sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth Ewrop yn cael eu paratoi'n rheolaidd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gyhoeddi a darparu adroddiadau i awdurdodau rheoli'n brydlon.”

“Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cyllid a all fod ar gael ar gyfer gwaith MPAs gan fod y cyllid hwnnw ar hyn o bryd yn dod o gronfeydd yr UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature.”

89. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad cyntaf. Derbyniwyd yr argymhelliad olaf ond un mewn egwyddor. Gwrthodwyd y pedwerydd argymhelliad.

90. Mae'r rhan fwyaf o Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru wedi eu dynodi o dan Gyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar yr UE. Er mwyn i'r dynodiadau hyn gadw eu statws a'u sail gyfreithiol bresennol, daw'r Gyfarwydddebau hyn yn gyfraith yr UE a ddargadewir ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

91. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor y bydd y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol ar ei ffurf bresennol cyn ac ar ôl

i'r DU ymadael â'r UE gan ei fod yn defnyddio ac yn adeiladu ar bwerau a chyfrifoldebau a fydd yn cael eu cadw ar eu ffurf bresennol ar ôl ymadael â'r UE. Fodd bynnag, bydd ymadael â'r UE yn creu heriau wrth reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig o ystyried gymaint o ddeddfwriaeth yr UE sy'n sail i'r gyfundrefn reoli.

92. Ar 1 Mai 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngghoriad ar bolisiâu morol a physgodfeydd ar ôl Brexit, "Brexit a'n Moroedd". Dywed yr ymgynghoriad:

"Ni fyddwn yn cefnu ar ein hymrwymadau nac yn glastwreiddio safonau sy'n ymwneud â'r amgylchedd morol o ganlyniad i Brexit...Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gwblhau ei chyfraniad i'r rhwydwaith ehangach ac i barhau i sicrhau bod ei chyfraniad yn cael ei rheoli'n dda. Byddwn yn defnyddio'r cyfuniad o bwerau sydd ar gael drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a'r amryfal Reoliadau sy'n rhoi'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd ar waith er mwyn parhau i wireddu'r ymrwymiad hwn."

93. Er bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn cynnwys pynciau fel cydnerthedd ecosystemau, nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw gwestiynau penodol am Barthau Cadwraeth Morol.

94. Dywedodd yr Athro Fletcher mai uchelgais yr UE oedd y sbardun mwyaf ar gyfer gwelliannau ym maes cadwraeth forol dros y blynyddoedd diwethaf. Awgrymodd mai un o'r heriau posibl, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, fyddai diffyg arweiniad, os na fyddai'r fath sbardun yn bodoli mwyach. Ategwyd hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a fynegodd bryder, er ein bod ni'n cadw'r holl ddeddfwriaeth Ewropeaidd, efallai na fyddai'n gymaint o sbardun mwyach. Roedd hyn yn peri pryder am fod deddfwriaeth yr UE yn sail i'n dynodiadau a'n hymgyrch i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn well.

95. Dywedodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ei bod yn bwysig iawn, yn ei farn ef, fod Cymru'n parhau i gael mynediad at ymchwil Ewropeaidd, cyfranogiad Ewropeaidd, a dealltwriaeth o sut mae'r rhwydwaith Ewropeaidd yn gweithredu.

Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig cenedlaethol

96. Mae memorandwm esboniadol Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn ei gwneud hi'n glir, yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, na fydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd

Gwarchodaeth Arbennig y DU bellach yn cyfrannu at rwydwaith safleoedd gwarchodedig Natura 2000 yr UE. Mae'n nodi, o dan y rheoliadau:

“A national site network is created to retain the concept of a UK network of sites. The ‘national site network’ is defined as including Natura 2000 sites designated prior to EU exit and those Special Areas of Conservation (SACs) and Special Protection Areas (SPAs) designated post EU Exit.”

97. Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: “there is a risk when you move from an international network to something more nation based—does that change the situation?” Ychwanegodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau:

“certainly, having the Welsh network of MPAs extracted from the broader European Natura 2000 network potentially could change what our priorities are. Now, whether that should be the case is a whole different can of worms. I think what’s very important is that Wales retains access to European research, European involvement, and understanding of how the European network is operating, because it would be very foolish to imagine that there are borders in the sea. That’s very clear.”

Cyllid

98. Yn ei hymateb i'r ymchwiliad gwreiddiol, dywedodd y Gweinidog:

“Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw esbonio'r hyn y bydd yn ei wneud i ddisodli'r arian a gollir o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir iawn mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw gwireddu'r addewid a wnaed yn y refferendwm gan yr ymgyrch Gadael, sef na fydd Cymru'n colli yr un geiniog o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.”

99. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi adrodd bod potiau cyllido Ewropeaidd, fel Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a chronfa Rhaglen LIFE, wedi darparu dros £5 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth forol a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

100. Mewn llythyr at y Pwyllgor hwn, dyddiedig 17 Ebrill 2019, nododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

“Rwy’n disgwyl i Lywodraeth y DU anrhydeddu ei hymrwymiad i warantu holl raglenni ariannu’r UE yn llawn ar ôl i ni adael yr UE. Mae hyn yn cynnwys talu costau gweinyddu’r rhaglenni a defnyddio cyfradd gyfnewid briodol. O ran yr holl drefniadau ariannu ar ôl i ni adael yr UE, rwy’n glir na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai o ganlyniad i adael yr UE.

Mewn sefyllfa gadael heb gytundeb mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu y bydd prosiectau LIFE sy’n cael eu hariannu gan arian yr UE ar hyn o bryd yn parhau i gael eu hariannu gan Drysorlys EM am oes y prosiectau. O ddod i gytundeb, byddant yn parhau i gael eu hariannu gan yr UE am oes y prosiectau. Mae Trysorlys EM yn ystyried opsiynau i ddisodli arian LIFE yn y tymor hir ar ôl i ni adael yr UE. Mae fy swyddogion yn pwyso ar Drysorlys EM i ddarparu’r arian hwn i Lywodraeth Cymru.

Mae fy swyddogion yn parhau i gymryd rhan lawn yn nhrafodaethau Uwch Grŵp Llywio Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop y DU. Yn ddiweddar, bu’r Grŵp yn trafod natur fregus gadael heb gytundeb, a chynigion ar gyfer gweinyddu’r arian ychwanegol ar gyfer y diwydiant pysgota a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fis Rhagfyr diwethaf.”

101. Mynegodd Dr Terry bryder ynghylch trefniadau cyllido yn y dyfodol, o ystyried maint y cyfraniad cyfredol o gronfeydd yr UE. Dywedodd:

“For example, the European maritime and fisheries fund—there was about £2.25 million between 2007 and 2013. The European contribution was 75 per cent. The same fund from 2014 to the present was nearly £700,000, and the European contribution 79 per cent. The LIFE programme from 2012 to 2015 was £1 million, and the EU contributed 50 per cent, and the LIFE programme from 2015 to the present is £4 million, and the EU contributed 75 per cent.”

102. Cyfeiriodd at ddibyniaeth y sector ar y cronfeydd hyn a’i bryder nad oes unrhyw sicrwydd cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud yn iawn am y cronfeydd hynny ar ôl i ni adael.

103. Mynegodd Cyswllt Amgylchedd Cymru bryderon tebyg ynghylch i ba raddau y byddai fersiynau newydd o’r Cynllun Gweithredu yn y dyfodol yn cael eu hariannu, o ystyried y ddibyniaeth ar gronfeydd yr UE, fel Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a oedd yn ariannu’r mwyafrif helaeth o gamau gweithredu

Cyfoeth Naturiol Cymru o ran y cynllun gweithredu Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ac eto yno nid yw'n ymddangos bod llawer o drafod am sut y byddant yn parhau i ariannu camau gweithredu felly wrth symud ymlaen. Aeth ymlaen i gyfeirio at gronfa LIFE yr UE, a ddefnyddiwyd i ariannu gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a gwaith y trydydd sector, a mynegodd bryder ynghylch a fyddai cyllid o'r fath yn parhau.

Ein barn ni

Roeddem yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan un o'r cyfranwyr i ymchwiliad y Pwyllgor mai uchelgais yr UE oedd y sbardun mwyaf ar gyfer gwelliannau ym maes cadwraeth forol dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid am y bylchau posibl a allai godi ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Yn benodol, un o'r heriau y bydd Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu ar ôl Brexit fydd cynnal yr egni a'r sbardun a oedd yn deillio o fod yn aelod o'r UE. At hynny, bydd heriau eraill yn codi o weithio gyda llywodraethau eraill y DU, a allai fod am bwysleisio a blaenoriaethu materion gwahanol o bosibl.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cychwynnol, rydym yn credu bod sicrhau atebolrwydd a llwybr at gyfiawnder yn un o gonglfeini Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar ar Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl i'r DU adael yr UE, sy'n cynnwys sawl argymhelliad manwl ar y mater hwn, sy'n berthnasol i Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ein barn ni.

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan rhanddeiliaid ynghylch y posibilrwydd o golli mynediad at ymchwil Ewropeaidd, effaith gadael rhwydwaith Nature 2000 a cholli cyllid o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a Chronfa LIFE yr UE ac effaith y colledion hynny ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei hasesiad o unrhyw effeithiau o'r fath a dylai hefyd ddarparu gwybodaeth am y camau lliniaru a gymerir ganddi, neu y bwriedir eu cymryd.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu gomisiynu asesiad o'r effaith ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn sgil ymadael â'r UE, gan gynnwys y posibilrwydd o golli mynediad at ymchwil, sefydliadau a chyllid yr UE. Wrth wneud hynny, dylai egluro sut y bydd yn lliniaru unrhyw effaith o'r fath.

Atodiad A: Ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad

Cyfeiriad	Sefydliad
MPA 01	Cyfoeth Naturiol Cymru
MPA 02	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
MPA 03	Blaise Bullimore
MPA 04	Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro
MPA 05	Cyswllt Amgylchedd Cymru
MPA 06	Dŵr Cymru
MPA 07	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
MPA 08	Prifysgol Aberystwyth
MPA 09	Porthladd Aberdaugleddau
MPA 10	Blue Marine Foundation
MPA 11	Cyswllt Amgylchedd Cymru – gwybodaeth ychwanegol

Atodiad B: Tystiolaeth lafar

Dyddiad	Enw a Sefydliad
22 Mai 2019	Yr Athro Stephen Fletcher, Athro Polisi Cefnforoedd a'r Economi - Prifysgol Portsmouth Sue Burton, Swyddog Ardal Gadwraeth Arbennig – Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Penfro Jonathan Monk, Rheolwr Amgylcheddol – Porthladd Aberdaugleddau Tegryn Jones, Prif Weithredwr – Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
6 Mehefin 2019	Yr Athro Lynda Warren, Athro Emeritws – Prifysgol Aberystwyth Alan Terry, Blue Marine Foundation Dr Mary Lewis, Arweinydd y Tîm Cyngori ar Bolisi a Chynllunio Morol ac Arfordirol – Cyfoeth Naturiol Cymru Rhian Jardine, Pennaeth y Gwasanaeth Morol – Cyfoeth Naturiol Cymru Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru Emily Williams, Cyswllt Amgylchedd Cymru